



Cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig (FPN) ar gyfer peidio â bod yn yr ysgol

Llythyr at holl rieni a chynhalwyr (gofalwyr) disgyblion yn Ysgolion Rhondda Cynon Taf

Medi 2014

Annwyl Riant/Cynhaliwr,

Ym mis Medi 2013, daeth Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 i rym, fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r mater presenoldeb gwael yn yr ysgol. Mae disgwyl ar bob awdurdod lleol ledled Cymru i ddefnyddio'r hysbysiadau cosb benodedig i'w cynorthwyo i osgoi achosion o absenoldeb diangen o'r ysgol.

Rhan o hyn yw i bob awdurdod lleol ddatblygu cod ymddygiad sy'n amlinellu sut y byddai'r cynllun yn gweithio o ran sicrhau cysondeb wrth gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar draws y Sir. Bydd gweithredu'r rheoliadau yn effeithio ar holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol (5 i 16 oed) cofrestredig mewn unrhyw ysgol babanod, iau, cynradd, uwchradd ac arbennig, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion yn Rhondda Cynon Taf.

Cafodd cod ymddygiad drafft ei ddsbarthu ymhlith cyrff llywodraethu'r ysgolion, staff ysgol a Heddlu De Cymru ar gyfer ymgynghori ym mis Mai 2014. Cafodd yr adborth ei ddefnyddio i wella'r ddogfen a'i weithdrefnau. Ar 31^{ain} o Orffennaf 2014, cymeradwyodd Cabinet Rhondda Cynon Taf y Cod Ymddygiad, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig:

- Pan fo 10 sesiwn neu ragor o absenoldeb heb ganiatâd yn ystod y tymor presennol;
- Pan fo disgybl yn gyson yn hwyr ac yn cyrraedd mwy na 30 munud ar ôl y sesiwn gofrestru, o leiaf 10 gwaith yn ystod y tymor ;
- Pan fo rhieni/cynhalwyr (gofalwyr) yn gwrthod gweithio gyda'r ysgol i wella presenoldeb eu plentyn;
- Pan fo disgybl yn chwarae triwant yn rheolaidd mewn lleoedd cyhoeddus yn ystod oriau ysgol;
- Cymryd amser o'r ysgol i fynd ar wyliau heb ganiatâd yr ysgol. O gofio'r angen am sicrhau presenoldeb da yn yr ysgol, rydym ni wedi adolygu'r effaith o gymryd gwyliau yn ystod y tymor. Rydym ni nawr yn gofyn i benaethiaid beidio ag awdurdodi ceisiadau am wyliau yn ystod y tymor. Does dim unrhyw hawl sy'n galluogi rhieni a chynhalwyr i dynnu'u plentyn allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor. Rydym ni'n sylweddoli y bydd rhai amgylchiadau eithriadol pan na fyddai'n amhriodol i beidio ag awdurdodi absenoldeb oherwydd gwyliau. Felly, rydym ni wedi cytuno ar y rhesymau canlynol y caiff pennaeth ysgol gymeradwyo cais o'r fath:



- Teuluoedd personél sy'n gwasanaethu gyda'r Lluoedd Arfog;
- Rhiant neu blentyn a chanddo/canddi salwch sy'n cyfyngu ar fywyd;
- Teuluoedd sydd wedi dioddef trawma aciwt.

Bydd hysbysiadau cosb benodedig yn cynnig ffordd o 'ymyrryd' i atal achosion unigol rhag dod yn achosion parhaus ac yn symud ymlaen i'r llys ynadon lleol. Dim ond un hysbysiad fydd yn cael ei gyflwyno i'r rhiant/cynhaliwr (sydd â chyfrifoldeb rhiant) mewn unrhyw un flwyddyn academiaidd ond bydd modd cyflwyno hysbysiadau ar gyfer mwy nag un plentyn yn y teulu hwnnw. Mae hysbysiad cosb benodedig yn £60 os caiff ei dalu o fewn 28 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad, ac mae'n codi i £120 os caiff ei dalu ar ôl 28 diwrnod ond o fewn 42 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad. Os na chaiff y gosb ei thalu'n llawn erbyn diwedd y 42 diwrnod, bydd rhaid i'r awdurdod lleol naill ai erlyn y rhieni/cynhalwyr am y drosedd neu dynnu'r hysbysiad yn ôl.

Felly, o'r 1^{af} o Fedi 2014, bydd y Cod Ymddygiad yn weithredol ar draws Rhondda Cynon Taf. Bydd taflen wybodaeth ar gael gan ysgolion yn ystod hanner cyntaf tymor yr Hydref 2014. Os oes eisiau rhagor o wybodaeth arnoch chi, cysylltwch ag ysgol eich plentyn yn y lle cyntaf. Fel arall, cysylltwch â Gwasanaeth Materion Mynychu'r Ysgol a Les ar 01443 744298 neu e-bost presenoldeballes@rctcbc.gov.uk

Yn gywir,

Chris Bradshaw
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes